## Bidiau 2021/22

## ATODIAD 2a

**BIDIAU REFENIW PARHAOL 2021/22 - CATEGORI 1 BRON YN ANORFOD**

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a Argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| | **ADDYSG** | | |
| Bid 1 | Prydau Ysgol am Ddim - cynnydd yn niferoedd sydd yn hawlio | Cynnydd yn niferoedd plant sydd yn gymwys i dderbyn cinio am ddim, rhagwelir cynnydd o 1,060 rhwng Medi 2019 a Medi 2021. | 124,080 |
| Bid 2 | Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion | Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2021/22, yn dangos gwariant o £2,681,460 yn erbyn cyllideb o £2,391,020 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £290,440. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â diffyg o £160,240 yn y bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. (Cyflwynwyd bid am £310,240 a derbyniwyd £150k). Noder fod y gyllideb eleni (2020/21) wedi gostwng £104,160 o ganlyniad i ail-dendro cytundebau ardal Meirionnydd yn Ebrill 2020. | 145,440 |
| | **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| Bid 3 | Lleoliadau Plant Mewn Gofal | Cynnydd yn y nifer o leoliadau maeth efo teulu, galw am leoliadau maeth drwy asiant oherwydd diffyg capasati mewnol ac achosion dwys a chymleth sy'n gwneud lleoliad preswyl allsirol yn anorfod. Ariannu - Lleoliadau all-sirol £1.07m, Lleoliadau Maethu Asiant £380k a Lleoliadau Maethu Mewnol £170k. | 1,620,000 |
| Bid 4 | Llety a Chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal | Mae cynnydd dros blynyddoedd diwethaf yn y nifer plant mewn gofal ac un o sgil effeithiau hynny yw bod cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n dod yn gymwys am wasanaeth ôl-ofal. Yn benodol mae cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sydd ag anghenion uwch yn gadael gofal ac yn anorfod mae hynny wedi golygu darparu pecynnau cefnogaeth lefel uwch a chostus ar eu cyfer.<br><br>Dros y 2 flynedd diwethaf mae gwariant ar y maes hwn wedi cynyddu a bellach yn gorwario'n sylweddol. Rhagwelir gorwariant o £378k erbyn diwedd 2020/21. | 100,000 |
| Bid 5 | Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn Plant - creu swydd llawn amser ychwanegol | Yn ôl Deddf 2014, mae disgwyliadau ar yr Awdurdod Lleol i glustnodi swyddog i bob plentyn mewn gofal i adolygu gofal yr Awdurdod ohono a sicrhau eu hawliau. Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal, felly nid yw'r swyddogion yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Byddai deilydd y swydd yn gyfrifol am adolygu plant mewn gofal a chynnal y rôl o Gadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant yn achlysurol. | 54,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| Bid 6 | Swyddog Hyfforddi / Ansawdd Gofal Anabledd Dysgu | Yn hanesyddol mae'r swydd wedi ei ariannu drwy grantiau. Mae’r swydd wedi ein galluogi i ddatblygu’r gweithlu a sefydlu diwylliant Cefnogaeth Actif ‘Positive Behaviour Support’. Ac yn golygu y gallwn ddarparu hyfforddiant mewnol heb orfod prynu hyfforddiant allanol (cost o hyd at £1k y diwrnod).<br><br>Cais er mwyn ariannu'r swydd yn barhaol yn hytrach na defnydd grantiau. | 39,250 |
| Bid 7 | Tim Gwaith Cymdeithasol Anabledd Dysgu | Mae’r galw ar y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi cynyddu yn sylweddol; 535 unigolyn ar y gofrestr yn 2010/11, wedi cynyddu i 647 o unigolion erbyn hyn. Nid yn unig mae nifer yr achosion wedi cynyddu, ond mae cymhlethdod anghenion yr unigolion ar y gofrestr hefyd wedi trawsnewid.<br><br>Cais i ariannu 3 swydd gweithiwr cymdeithasol mewn swyddi dros dro yn rhai parhaol. Nid oedd y swyddi hyn ar strwythur staffio'r Adran ac felly wedi cyfrannu tuag at orwariant yr Adran. | 46,300 |
| Bid 8 | Cryfhau Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol (Anableddau Dysgu) | Newid swydd o fod yn un rhan amser i un llawn amser o fewn y Gwasaneth Anableddau Dysgu, gan nad oes modd llenwi’r swydd rhan amser a dyma’r unig swydd Therapydd Galwedigaethol o fewn y Gwasanaeth. | 23,150 |
| Bid 9 | Oed Trosglwyddo: Oedolion Ifanc Anableddau Dysgu | Bydd unigolion sydd wedi derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Oedolion yn ystod 2021/22. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a’u teuluoedd yn unol â’r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ac allbynnau llesiant penodol. | 514,340 |
| Bid 10 | Cefnogi unigolyn bregus | I dalu am leoliad addas all-sirol i ddarparu gofal arbenigol i unigolyn ifanc a chyflyrau corfforol a meddyliol dwys, sydd yn golygu eu fod yn ddibynnol iawn ar eraill i gwrdd a’i anghenion gofal corfforol.<br><br>Gwasanaeth Oedolion sydd wedi ariannu'r gost, ond mae trafodaethau parhaus gyda gwahanol adrannau o’r Bwrdd Iechyd i ofyn am gefnogaeth. | 98,500 |
| | **CORFFORAETHOL** | | |
| Bid 11 | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. | 50,000 |
| Bid 12 | Costau Benthyca Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Costau benthyca'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. | 100,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| Bid 13 | Strategaeth Wastraff | Gostyngiad yn y grant Rheoli Gwastraff Cynaladwy sy’n cael ei ddyrannu dros yr Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru. | 62,000 |
| Bid 14 | Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback) | Parhau gyda ymateb y Cyngor i drin coed sy'n dioddef o'r clwy. Dylid nodi fod profiadau awdurdodau eraill yn awgrymu cyfnod o leiaf 5 mlynedd i gael rheolaeth ar y sefyllfa. Gyda chostau staffio blynyddol o £181,550 (penodi 4 aelod o staff) a chostau torri coed blynyddol. | 105,220 |
| | **CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL CATEGORI 1** | | **3,082,280** |